**Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig**

—

**Economy, Trade, and Rural Affairs Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddEconomi@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddEconomi
0300 200 6565

—

**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddEconomy@senedd.wales
senedd.wales/SeneddEconomy
0300 200 6565

Jeremy Miles AS
Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Ynni
a'r Gymraeg

8 Mai 2024

Annwyl Jeremy,

**Yr Ymchwiliad i Fanc Datblygu Cymru (BDC): gwaith dilynol**

Diolch am ddod i'r Pwyllgor ar 24 Ebrill i roi tystiolaeth ar gyfer ymchwiliad y Pwyllgor. Rwyf eisoes wedi ysgrifennu at y Banc yn dilyn eu sesiwn dystiolaeth i'w holi ymhellach ynghylch rhai pwyntiau a gododd o'r cyfarfod.

O ran y cwestiynau a godwyd ynghylch annibyniaeth Banc Datblygu Cymru ar Lywodraeth Cymru, a hefyd ynghylch ei phrosesau diwydrwydd dyladwy mewnol, nodaf ichi ddweud mewn tystiolaeth i'r Pwyllgor Materion Cymreig ar 1 Mai eich bod wedi gofyn i'r Banc ystyried a oes unrhyw brofiadau diweddar wedi peri iddynt edrych eto ar eu prosesau diwydrwydd.  Mae hyn yn sicr i'w groesawu, gan fy mod yn disgwyl y bydd hwn yn fater a gaiff ei gynnwys yn adroddiad y Pwyllgor ar yr ymchwiliad.

Yn y Pwyllgor, fe wnaethoch ymateb i fy nghwestiynau am y berthynas rhwng Banc Datblygu Cymru a Llywodraeth Cymru gan gyfeirio at ddogfen fframwaith sy'n llywodraethu'r berthynas honno ac yn sail iddi. Cyfeiriodd y Trefnydd hefyd at y ddogfen hon mewn ymateb i gwestiynau ar y mater yn y Cyfarfod Llawn ar 23 Ebrill. I sicrhau tryloywder ac i'n cynorthwyo â'n hymchwiliad, byddwn yn ddiolchgar pe gallech anfon copi o'r ddogfen honno i'r Pwyllgor cyn gynted â phosibl.

Cofion cynnes,

Paul Davies AS
Cadeirydd: Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg